

From: [REDACTED]
To: [REDACTED]
Subject: 2022/00773/Full land north of the railway line
Date: 28 September 2026 06:05:49

Annwyl Sian Gwenllian,

Rydw i'n wreiddiol o Gaernarfon ond wedi symud lawr i Gaerdydd ers 25 o flynyddoedd bellach. Dechreuon ni'n teulu yn Mharc Coed Helen ar lan y Fenai. Rydym ni rwan yn edrych ymlaen i ymddeol mewn chydig o flynyddoedd. Rydym yn drigloion newydd i Rhoose, symudon ni yma Mis Mai dwythfa i fod wrth y mor unwaith eto.

Roeddau yn ymwybodol or cynlluniau i adeiladu dros 300 o dai cyn symyd yma. Ers symyd mae gweld y cyfoeth o fywyd natur yn y caeau wedi bod yn bleser i wyllo. Mae'n dor calonus bod y tai yma am ddwyn cynhefin y bywyd yma. [REDACTED] fy wyres fach wrth ei bodd yn gwrando ar y criciaid yn "sgwrsio" fel ma hi'n dweud! A'n gwyllo'r adar sglyfeuthus yn hela yn y dydd, a ystlumod fin nos.

Nid wyf yn erbyn datblygu tai ond rwy'n poeni am yr effaith mae y datblygiad yma am gael ar y pentref ar gymuned. Hwn yw'r cae gwyrdd olaf yma! Mae Rhoose yn brysur newid, o fod yn bentref i fod yn dref, a hyn heb yr seilwaith i ymdopi. Mae coleg newydd am agor yn 2027, ar y brif lôn allan o'r pentref. Mi fydd y pwysau wedyn o dros 300 o dai ar ben y coleg yn creu problem traffig enfawr ar lôn wledig. Mae dwy ysgol yma yn Rhoose, a bydd dros 300 o dai ychwanegol yn rhoi pwysa ar yr ysgolion yma. Dwi'n gweithio mewn ysgol yn Llandaf ac yn gwybod bod sefylla arianiol ysgolion ymhell o fod yn berffaith ar y funyd! Un pryder arall mae'r ddwy ysgol drwy gyfrwng saesneg does dim darpariaeth i deuloedd sydd yn dewis addysg gymraeg yma!

Dyweddodd Ian Robinson "head of sustainable development" i'r cyngor "Rhoose is one of the most sustainable settlements in the vale, maybe not the best" a wedyn "the local services are likely to be put under pressure and something will need to be done" felly mae o'n cydnabod bod y cynllun am greu problemau!

Rwy'n gofyn i chi fel aelod o'r senedd i wir ystyried effaith y datblygiad yma ar Rhoose y gymuned a chymunedau y dyfodol. Mae ein plant angen gweld gwyrddni a bywyd natur. Unwaith mae'r ceuau wedi mynd does dim cael nhw'n ôl. When they are gone they are gone!

Gyda diolch

[REDACTED]
Rhoose
Barry
Vale of Glamorgan

